

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

Pwyntiau Gweithredu

Sesiwn Gwrandawriad 13 – Sipsiwn a Theithwyr			
Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
S13/PG1	Safle Sipsiwn yn Llandygai	Paratoi papur i roi gwybodaeth am yr ystyriaethau cynllunio perthnasol yn gysylltiedig ag ymestyn y safle presennol, sydd wrth ymyl stad ddiwydiannol, e.e. materion sŵn, mesurau lliniaru os oes angen.	Erbyn 21/10
S13/PG2	Safle Penhesgyn	Paratoi papur i roi diweddariad ynglŷn â'r broses tendro am waith gan gwmni ymgynghoriaeth. Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddangos ffiniau cywir y safle a'r tir ar gyfer mynediad.	Erbyn 21/10
S13/PG3	Polisi TAI 13	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i Bolisi TAI 13 i: <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y fersiwn Saesneg o'r maen prawf ychwanegol arfaethedig yn gyson a'r derminoleg yn NCT 15, h.y. cyfeirio at 'highly vulnerable development'; • Ddiwygio maen prawf 1 trwy beidio cyfeirio at 'gwirioneddol'; • Diwygio maen prawf 2 i sicrhau ei fod yn gliriach ac yn ymarferol, gan adlewyrchu canllawiau cenedlaethol sydd ddim yn disgwyl y gall safleoedd gwrdd â phob un maen prawf; • Sicrhau ei fod yn cyfarch y posibilrwydd y gallai angen godi yn ystod oes y Cynllun ar gyfer safle tramwy. 	Erbyn 21/10
S13/PG4	Cyffredinol	Golygu'r eirfa i sicrhau bod pob rhan berthnasol yn cyfeirio at (i) y ffaith bod y Cynllun yn cyfarch yr angen am leiniau i Sipsiwn a	Erbyn 21/10

Sesiwn Gwrandawriad 13 – Sipsiwn a Theithwyr			
Cyfeirnod	Pwnc	Pwynt Gweithredu	Amserlen
		Theithwyr trwy gydol oes y Cynllun, a (ii) at Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i pan mae safle yn cael ei ddynodi neu ei warchod yn benodol ar gyfer un ai Sipsiwn neu Deithwyr.	
S13/PG5	Safleoedd Aros Dros Dro	Peidio dynodi safleoedd dros dro ar fapiau cynigion y Cynllun. Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i roi eglurhad cyffredinol ynglŷn â sut fydd y Cynghorau yn mynd ati i gyfarch yr angen sydd wedi cael ei adnabod yn y GTANA a chyfarch eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan gyfeirio yn benodol at safleoedd aros dros dro a thramwy.	Erbyn 21/10
S13/PG6	Polisi TAI 12	Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i (i) beidio cyfeirio at fwriad i ddefnyddio methodoleg asesu safleoedd yng ngeiriad y Polisi, a (ii) i gyfeirio at 10 llain yn hytrach nag 11 ar estyniad i safle Sipsiwn a Theithwyr Llandygai i gyd-fynd a'r GTANA.	Erbyn 21/10
S13/PG7	Fframwaith Fonitro	Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynghorau yn gallu monitro llwyddiant y Cynghorau ai pheidio i ddarparu safleoedd parhaol yn amserol, ac i fesur os oes angen safle tramwy ai pheidio yn ystod oes y Cynllun.	Erbyn 21/10
S13/PG8	Cyffredinol	Dangos newidiadau a gafodd eu hawgrymu mewn ymateb i sylwadau am Newid â Ffocws na fydd yn cael eu cynnig fel Newid Materion sy'n Codi.	Erbyn 21/10